# Swyddog Gwybodaeth a Dysgu (Cymru)

| |
|---|
| Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rolau hyblyg sy'n galluogi pobl i roi eu gorau, ehangu eu sgiliau a rheoli eu llwybr gyrfa. Ni fwriedir y rôl proffil yma i fod yn rhestr lawn o'ch dyletswyddau, yn hytrach mae'n rhoi amlinelliad o ddyletswyddau'r rôl. Bydd i fyny i chi i weithio gyda'ch cydweithwyr i ddatblygu a siapio eich gwaith yn unol â'n hamcanion strategol ac amcanion eich tîm. |
| **Swyddog Gwybodaeth a Dysgu** |

***Ein swyddogion***

Fel swyddog yn y Gronfa, beth bynnag yw eich arbenigedd, bydd digon o gyfleoedd i chi ar gyfer ymreolaeth a chyfrifoldeb. Byddwch yn defnyddio eich barn a'ch gwybodaeth i wneud argymhellion a phenderfyniadau, a bydd eich sgiliau wrth ddeall anghenion cwsmeriaid gwahanol, darparu adborth a chyngor, yn dod i'r amlwg. Ni fydd angen llawer o oruchwyliaeth arnoch gan eich cydweithwyr a byddwch yn arwain ar eich gwaith a'ch datblygiad eich hun. Byddwch yn ymfalchïo yn eich gwaith a byddwch yn dylanwadu ac yn cysylltu yn bositif gyda'n cwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn fewnol ag allanol.

***Eich rôl***

O fewn y rôl benodol hon, fe fyddwch yn creu a rhannu gwybodaeth ac addysg o waith y Gronfa a'r gwaith yr ydym yn ei gefnogi ar lawr gwlad.

Bydd casglu tystiolaeth o effaith, polisi ac arfer o ffynonellau mewnol ac allanol yn allweddol o fewn y rôl hon. Fe fyddwch yn treulio amser yn hwyluso dysgu trefniadaethol ag unigol, gweithgareddau dysgu ar themâu o ddiddordeb penodol a/neu gefnogi a galluogi timoedd lleol i wneud hyn yn dda yn eu hardaloedd. Fe fyddwch yn gosod blaenoriaeth uchel ar gasglu deallusrwydd i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer polisi ac arfer, gan gynnwys dysgu o sefydliadau eraill, sganio'r amgylchedd am wybodaeth ar yr hyn mae eraill yn ei wneud, dynodi dysgu y gellir ei drosglwyddo, a chynnal rhwydweithiau mewnol ar draws y pedair gwlad.

Mae'n debygol y byddech yn canolbwyntio ar thema benodol o fewn ein prosesau cyflwyno grantiau. Fe fyddwch yn cynnal gweithgareddau i ddysgu o brosesau cyflwyno grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac i'w gwella'n barhaus, gyda'ch gwaith yn gwella estyniad yr arian a'i effaith. Ar draws y flwyddyn, byddwch yn rhoi cyngor i gydweithwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar sut y gall yr arian gael yr effaith fwyaf, gan ddefnyddio eich dadansoddiadau o batrymau cyflwyno grantiau yn y gorffennol, a dysgu am arfer effeithiol a meddu ar wybodaeth am y cyd-destun polisi ehangach.

Bydd eich gwaith yn arwain at fwy o bobl yn bod yn ymwybodol o a defnyddio'r dysgu gan waith y Gronfa. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i greu a rhannu dysgu, ysgrifennu mewn modd cryno sy'n ymgysylltu ag eraill gyda pharch i gynulleidfa, cyflwyno canfyddiadau ar lafar i ystod o gynulleidfaoedd, hyrwyddo dysgu trwy rwydweithiau, gan gynnwys ar-lein. Bydd adnabod carfan bersonol o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol

perthnasol gan gysylltu â hwy, datblygu a chynnal perthnasoedd ac annog cydweithrediad, yn arwain atoch yn cael eich gweld fel dylanwadwr a hysbyswr gwerthfawr.

Yn olaf, byddwch yn cael y cyfle i gwmpasu a dynodi contractau bychan megis ar gyfer ymchwil allanol, gwerthuso neu gymorth arbenigol, a chynnal cysylltiad a thrafodaethau o ddydd i ddydd gyda chontractwyr. Bydd cynnal gwybodaeth ddiweddar am faterion cymdeithasol, polisi cyhoeddus a'r trydydd sector yn eich helpu i gyflwyno yn effeithiol.

Bydd angen i chi weithio hefyd, wrth gwrs, o fewn polisïau a gweithdrefnau'r Gronfa a deddfwriaeth angenrheidiol, ac mewn ffordd sy'n unol â'n gweledigaeth ac egwyddorion. Os yw'r swydd wedi ei lleoli yng Nghymru, neu yn gweithio'n agos â'r cyhoedd neu gydweithwyr yng Nghymru, bydd angen i chi fod â dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg o dan Safonau'r Gymraeg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r uchod yn berthnasol ar gyfer pob swydd, ond yn ddibynnol ar eich cefndir a phrofiad, byddwch yn gweithio yn un o'r meysydd canlynol:

**Data**

Byddwch yn cael mynediad at ac yn dadansoddi'r amrediad eang o ddata a'i ddelir gan y Gronfa, gan helpu pobl eraill yn y sefydliad ei ddeall ac fel y gall hysbysu eu gwaith. Bydd eich gwaith yn golygu fod ein data yn cael ei reoli'n well, yn cael ei ddefnyddio'n amlach ac yn fwy dylanwadol yn ein penderfyniadau a gweithrediadau. Bydd eich dull yn eich galluogi i ddarparu cyfres o adroddiadau / gwybodaeth i Bwyllgorau, staff uchel yn y gyfarwyddiaeth, rheolwyr a phenderfynwyr perthnasol eraill (megis paneli lleol) safonol sy'n amlinellu cyrhaeddiad ag effaith arian grant y Gronfa. Bydd gennych y cyfle i gynnal prosiectau ymchwil byr ar amrywiaeth o bynciau a materion, gan ddefnyddio data a'ch gwybodaeth o'n grantiau a'r cyd-destun polisi ehangach.

**Rhwydweithiau**

Byddwch yn hwyluso eraill i ddysgu trwy gynnal digwyddiadau a chefnogi rhwydweithiau, creu cynnyrch sy'n gwneud dysgu yn hygyrch, ac yn ymgysylltu yn rhagweithiol i rannu dysgu yn eang. Byddwch yn rheoli prosiectau bach a rhaglenni o ddigwyddiadau i gyrraedd y nod yma. Eich ffocws fydd cyfieithu gwybodaeth o un cyd-destun i un arall, defnyddio rhwydweithiau mewnol ac allanol a'r amrediad lawn o ddulliau cyfathrebu (yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol). Byddwch yn gosod blaenoriaeth uchel ar gasglu deallusrwydd i hysbysbu polisi ac ymarfer, yn cynnwys dysgu o sefydliadau eraill, sganio'r amgylchedd, adnabod dysgu trosglwyddiadwy a chynnal rhwydweithiau mewnol. Byddwch yn gwneud hyn drwy greu cynnyrch gwybodaeth a dysgu, a fydd yn cynnwys ysgrifennu yn gryno a deniadol gyda pharch at gynulleidfa, gan ddefnyddio offer (megis Canva) i greu cynnyrch deniadol, gan weithio yn agos gyda chydweithwyr i adnabod y cynnyrch dysgu a chyfleoedd cryfaf.

*Eich profiad*

Fel swyddog, mae'n bosibl eich bod wedi eich dyrchafu trwy ein llwybrau gyrfa mewnol wedi i chi ddangos eich sgiliau a gallu arweinyddiaeth neu efallai eich bod yn ymgeisio o du allan i'r sefydliad. Beth bynnag yw eich arbenigedd, bydd angen i chi fod a dealltwriaeth o a chwilfrydedd am ein gwaith. Ymhellach na hynny bydd angen i chi arddangos eich profiad a chymwysterau yn y meysydd canlynol:

**Data**

- Medrus gyda sgiliau ymchwilio, dadansoddi ac ymgynghori, gyda'r gallu i gydymffurfio gyda meini prawf ac egwyddorion
- Y gallu i ddefnyddio technolegau ac offer delweddau newydd ac sy'n esblygu i ddadansoddi data
- Dealltwriaeth o ddulliau ymchwil mesurol ac ansoddol ac arferion dadansoddi data
- Y gallu i ysgrifennu a siarad am syniadau a gwybodaeth gymhleth a chael effaith mewn ffordd syml sy'n ymgysylltu ag eraill
- Gwybodaeth am y cyd-destun ar gyfer y trydydd sector, y tirlun ariannu a pholisi cyhoeddus ynghyd â'r bobl a'r sefydliadau sy'n ddylanwadol ar hyn
- Fe fyddai'n ddymunol petaech wedi gweithio mewn rôl debyg / wedi cyflawni tasgau tebyg yn flaenorol (dadansoddi, ysgrifennu, rhannu, datblygu polisi)

**Rhwydweithiau**

- Hwyluso grŵp – profiad o helpu eraill i gydweithio a cyd-ddysgu, y gallu i gynnal trafodaethau ble mae amrywiaeth o bobl yn rhannu a thrafod syniadau
- Sgiliau ymchwil, dadansoddi ac ymgynghori syml, gyda gallu i weithredu meini prawf ag egwyddorion
- Y gallu i ysgrifennu a thrafod syniadau, gwybodaeth ac effaith cymhleth mewn ffordd ddeniadol a syml
- Gwybodaeth o gyd-destun y trydydd sector, y tirlun ariannu a pholisi cyhoeddus ( neu gyda angerdd i ddod â'ch sgiliau a gwybodaeth i'r maes yma)
- Profiad o weithio mewn rôl debyg / o wneud tasgau tebyg o'r blaen (hwyluso, dadansoddi, ysgrifennu, rhannu, ymgysylltu).

Yng Ngogledd Iwerddon

- Dealltwriaeth o'n dyletswydd cydraddoldeb a gallu i gysylltu, dadansoddi ac adrodd i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid

*Byddwch*

**ARWEINYDDIAETH & RHEOLAETH**

- Yn frwdfrydig ag yn gweithio tuag at amcanion rhanedig, ac yn annog eraill i wneud yr un fath
- Wedi'ch ymrwymo i weledigaeth ag egwyddorion y Gronfa, a byddwch yn annog eraill i wneud yr un fath
- Yn cymryd perchnogaeth o'ch datblygiad personol eich hun drwy adnabod cryfderau a ble gellid ei ddatblygu, gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i gefnogi hyn.
- Yn gefnogol o'ch aelodau tîm ac yn dangos diddordeb ynddynt, a byddwch yn datblygu amrywiaeth o gysylltiadau tu allan eich tîm i helpu i gwblhau'r gwaith.

**ADEILADU PERTHNASAU GWYCH**

- Yn rhwydweithio yn fewnol ag allanol, gan roi eich hun yn sefyllfa'r cwsmer a gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i bobl
- Cyfathrebu mewn modd onest a chysylltiol, gyda'r gallu i ddylanwadu a thrafod gan ddefnyddio dadlau da ac amrywiaeth o strategaethau i ddarbwyllo eraill
- Yn gwrando ac yn ymateb i eraill mewn modd gwybodus, gan gydnabod cyfraniad a gwerth safbwyntiau gwahanol

**CYFRIFOLDEB PERSONOL**

- Yn gyson chwilio am adborth a gweithredu arno i werthuso a gwella eich perfformiad eich hun
- Peidio â chynhyrfu o dan bwysau a gallu ymdopi a blaenoriaethau cystadleuol, gan gefnogi eraill pan fo angen
- Cymryd perchnogaeth a bod yn atebol dros eich gwaith eich hun, ac annog cydweithiwr i wneud yr un fath

**CYFLWYNO**

- Adnabod cyfleoedd i rannu dysgu a gwybodaeth a gwneud gwelliannau drwy weithio gyda chydweithwyr
- Defnyddio'r systemau a'r data sydd ar gael i chi i gwblhau eich gwaith yn effeithiol a gwella gwaith eich tîm
- Chwilio a dadansoddi gwybodaeth sydd ar gael inni, gan ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau a chwblhau eich gwaith yn effeithiol.
- Ymateb i faterion a thueddiadau sy'n codi sydd yn cael effaith ar eich gwaith, neu ar y Gronfa
- Deall gofynion llywodraethu da a darparu atebion i risg a phroblemau.

***Ein meddylfryd***

- Rwyf yn angerddol am y potensial o ddyfarnu grantiau gwych
- Rwyf wedi ymrwymo i rwydweithio effeithiol ar draws y Gronfa
- Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyhead cymunedau a chydweithiwr gan adnabod yr angen i ddarparu cydraddoldeb a chyfle
- Rwy'n chwilfrydig ac yn chwilio am ffyrdd newydd o wneud pethau
- Byddaf yn gwrando, dysgu, darparu ac annog adborth a sialens
- Rwy'n gyfrifol ac yn atebol am fy ngwaith
- Rwy'n gweithio yn hyblyg ac ar y cyd i gwrdd ag anghenion eraill
- Rwy'n defnyddio gwybodaeth a phrofiad i rannu fy nysgu
- Rwyf eisiau gwneud y Gronfa yn le gwych i weithio

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae'ch swydd yn perthyn i'r teulu** | Cyflwyno Gweithredol | **Eich cyfarwyddiaeth yw** | Cymru |
| **Eich dull o weithio yw** | Swyddfa | **Eich templed rôl yw** | Swyddog |